

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Hydref 8fed 2014
am 7 - 0 o'r gloch.**

1. **Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Gadeirydd Cyng. G Moore, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.
Presennol - Cynghorwyr Gareth Moore, Emlyn Jones (Is-Gadeirydd), Ruth Roberts, Delyth Jones, Wyn Hughes, Lewis Davies, Dafydd Roberts, Alwyn Rowlands a Geraint Parry (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau:-**
Cyng. Alan Owen, Ann Roberts, Mary Ellis, a Carwyn Jones.
3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 10fed o Fedi, wrth newid un pwynt, fel rhai cywir gan Cyng. W Hughes ac eiliwyd gan Cyng. E Jones.
4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
 - 4.10 **Sgwâr Tawelfan** - Cyng. L Davies wedi ysgrifennu llythyr o ddiolch i'r Cyngor Sir am y grant i adnewyddu'r sgwâr. Cyng. D Jones yn adrodd fod grŵp Cymunedol wedi ennill grant o £300, angen ei ddefnyddio erbyn mis Chwefror 2015.
 - 4.11 **Coed ar lôn Glan-Ilyn** - coed wedi ei dorri o amgylch y lôn cyn 3/10/14. Clerc i drafod y mater gyda Menter Môn er mwyn cael rhannu rhywfaint o'r gost.
 - 4.12 **Sedd Gwag** - wedi hysbysebu'r swydd, diwrnod cau am ymgeiswyr 9/10/14.
 - 4.13 **Gwaith cynnal a chadw** - Clerc wedi gofyn am bris i drwsio gwaith coed o gylch tap dwr yn Fynwent y Plwyf ar fainc ym maes Chwarae Plant.
 - 4.14 **Arwyddion Baw Ci** - penderfynwyd cyfrannu £100 at arwyddion Baw Ci.
 - 4.14 **Adeiladu Ward Cymunedau Seiriol** - Clerc wedi derbyn holiadur "Gofal a llety i bobl hyn yn ne'r Ynys". Angen anfon i mewn i'r Cyngor Sir erbyn 29/10/14.
5. **Datgan Diddordeb**
 - Cyng. D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol
 - Cyng. G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
 - Cyng. L Davies ar geisiadau 35C110A, 35C319, 35C97G a 35C97F.
6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
 - 35C110A - Cais llawn ar gyfer dymchwel y gyn tafarn a chodi 4 annedd marchnad agored a 2 annedd fforddiadwy yn Tafarn y Rhyd, Llangoed - mater carthion yn yr ardal yma sy'n mynd i achosi problem.
 - 35C319 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd y capel/ysgody i annedd sydd yn cynnwys 2 balconi, codi modurdy newydd a gosod panel solar yn Capel Ty Rhys - dim gwrthwynebiad.
 - 35C97G - Newid defnydd rhan o'r annedd ar y llawr isaf i 2 swyddfa yn Cornelyn Manor, Llangoed - dim gwrthwynebiad.
 - 35C97F - Newid defnydd rhan o'r adeilad ar y llawr isod i fflat yn Cornelyn Manor, Llangoed - dim gwrthwynebiad.
7. **Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
 - 7.10 Cerrig ar Bont y Rhyd wedi cael ei atgyweirio gan y Cyngor Sir, ar ôl cael ei daro gan gerbyd mawr.
 - 7.11 Wedi derbyn cwynion ynglŷn â chyflwr adeilad y Geidwaid. Adeilad mewn cyflwr gwael. Brigâd Tan wedi gwneud arolwg ac mae'r adeilad wedi ail -agor.
 - 7.12 Giât Gwelfor - Cyngor Sir yn debygol o osod giât newydd.
 - 7.13 Arwydd Lleiniog - wedi disgyn, disgwyl arian i bwrcasu arwydd newydd.
 - 7.14 Wedi derbyn cais gan Mr Butcher, gofyn am ganiatâd i dorri coeden sycamorwydden sydd yn tyfu ar derfyn Fferm Marian a'r tir comin. Cytunwyd rhoi ganiatâd i dorri y coeden.
 - 7.15 Wedi derbyn cwynion bod cŵn yn baeddu ar y tir tu ôl i'r tai gwarchod ym Mhont y Brenin. Cyngor Sir yn gwrthod torri'r ardal. Am gael gosod arwydd yno.
 - 7.16 Llywodraeth Cymru yn ystyried bod Ynys Môn yn ymuno gyda Gwynedd. Mae nifer o rhaglenni cyd-weithio da yn mynd ymlaen nawr rhwng awdurdodau eraill.
 - 7.16 Cyllideb y Cyngor Sir ar fin gweld toriad o tua 4.5%
 - 7.17 Grant wedi ennill i arbed llifogydd i gryfhau'r morglawdd o'r Maes ym Miwmares hyd at Gallows Point. Nid yw'r cynllun yn cynnwys gwelliannu'r palmant wrth morglawdd yn Llanfaes.
 - 7.18 Trafodaeth wedi cychwyn i drafod y posibilrwydd o greu system un ffordd ym Miwmares.

8. Neuadd y Pentre'

Cytunwyd ffigwr o £1,500 rhodd at Neuadd y pentre'.

Penderfynwyd diolch i Mr & Mrs Williams am y gwaith eithriadol oeddent wedi gwneud i gael Sioe Flodau llwyddiannus yn y Neuadd.

Digwyddiad – noson gyda'r Moniars ar 17/10/14, Noson Calan Gaeaf 31/10/14

Pwyllgor yn penderfynu gwneud cais i'r Cyngor Sir am Trwydded TENS estynedig.

9. Prosiect Afon Lleiniog

Cyfarfod nesaf wedi ei drefnu 14/10/14.

- Contract Glastir – arian y grant ar gyfer gwaith 2014/15 wedi ei dderbyn.
- Morglawdd ym maes parcio Lleiniog wedi cael ei gryfhau.

10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed

Cyng. D Jones yn rhannu gwybodaeth:-

- Grŵp wedi bod yn llwyddiannus gyda enill grant "Lottery" o £2,000.
- Swyddog o Gadw Cymru'n Taclus yn ymweld ar bentref.
- Rhodd o £1,000 wedi ei dderbyn gan gwmni Magnox.
- Un o'r teils rwber glanio meddal wedi cael ei dynnu o gwmpas y sleid ym maes chwarae'r plant.

11. Cyfrifon

Taliadau, penderfynwyd talu:-

- Neuadd y Pentre', grant blynyddol 2014/15 - £1,500
- Hacker Young, ffi awdit 2013/14 - £276.00
- Cyflog y Clerc, Gorffennaf – Medi - £465.07
- Underhill+Sharp, torri coed ar lôn Glan-llyn - £660.00
- W Roberts, strimmio ayyb - £180
- Grŵp Ffrindiau Llangoed - £207.00

Incwm

- Grant Glastir – gwaith Castell Aberlleiniog - £818.06

12. Gohebiaeth

Llythyr – Cyngor Sir, Hyfforddiant Cod Ymddygiad

Llythyr - John Rowlands, Plaid Cymru

e-bost – J Butcher, torri coeden

Apel – Shelter Cymru

Llythyr – Cyngor Sir, cyfarfod Fforwm Cynllunio 9/10/14

13. UFA:

13.10 Cangen fawr yn hongian dros y ffordd ger mynedfa Nant Heilyn, angen ei dorri.

13.11 Garreg fawr wedi dod yn rhydd oddi'r wal y Parc yn Eglwys St Cawrdaf. Achoswyd o bosib gan wartheg yn rhwbio arno.

13.12 Gwaith diweddar a wnaed i BT wrth dyllu'r palmant gyferbyn a Mona Terrace, ac ail-osod o safon wael. Penderfynwyd gadael i'r wyneb setlo cyn cysylltu ar gontractwr.

13.13 Nid yw pobl yn defnyddio'r safle bws ger Bont y Rhyd, oherwydd mae dŵr yno o hyd yn codi o'r ddaear, a hefyd bod yn cael ei defnyddio fel toiled.

13.14 Penderfynwyd anfon llythyr i longyfarch Mrs Crompton o ennill gwobr o wirfoddolwr y flwyddyn ar gyfer cyfan Brydain, am ei gwaith i CAB Bangor.

13.15 Lorri fawr wedi trio mynd trwy stryd Teras Coedwig, Penmon.

14. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 8.55 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 12/11/14

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad